ct WEEK dathlu cludiant cymunedol

**Mwy na Bws Mini**

**13–17 Hydref 2025**

# Templed Llythyr at Gynrychiolydd Etholedig Lleol

Annwyl [ENW'R AS/CYNRYCHIOLYDD LLEOL],

Rwyf yn ysgrifennu atoch yn bersonol i'ch gwahodd i ymweld â [ENW'R SEFYDLIAD] yn [LLEOLIAD] fel rhan o'n dathliadau ar gyfer Wythnos Trafnidiaeth Gymunedol 2025, sy'n cael ei chynnal rhwng dydd Llun 13 a dydd Gwener 17 Hydref 2025. Mae thema eleni, "Mwy na Bws Mini", yn dangos sut mae Trafnidiaeth Gymunedol yn chwarae rhan allweddol a'i fod yn llawer mwy na chludo pobl o un lle i'r llall — mae'n hanfodol i gysylltu pobl â gwasanaethau hanfodol, lleihau ynysigrwydd, a hybu cynhwysiant cymdeithasol.

Yn [ENW'R SEFYDLIAD], rydym yn darparu datrysiadau trafnidiaeth hanfodol i breswylwyr lleol sy'n aml heb wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus digonol, gan gynnwys pobl hŷn, unigolion ag anableddau, a rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu ddiarffordd. Mae ein gwasanaethau'n ganolog i'r gymuned, gan gynnig opsiynau fel [DILEER FEL SY'N BRIODOL: cynlluniau ceir gwirfoddol, ffonio am bas, clybiau ceir, bysiau cymunedol, cludiant cleifion mewn achosion nad ydynt yn rhai brys, hurio beiciau, danfon presgripsiynau a siopa]. Bob blwyddyn, rydym yn helpu [NIFER Y DEFNYDDWYR/TEITHWYR] o unigolion i ddefnyddio gwasanaethau hanfodol, fel gofal iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, a chysylltiadau teuluol – gwasanaethau sy'n eu galluogi i fyw bywydau mwy annibynnol ac i gadw mewn cysylltiad.

Pa ffordd well o dynnu sylw at "Mwy na Bws Mini" na thrwy weld ein gwaith drosoch eich hun? Byddai eich ymweliad yn gyfle i sgwrsio'n uniongyrchol â'n teithwyr, i gwrdd â'n staff a gwirfoddolwyr ymroddedig, ac i weld drosoch eich hun effaith bellgyrhaeddol ein gwasanaethau yn y gymuned. Mi ddowch i ddeall fod Trafnidiaeth Gymunedol yn hanfodol i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac i sicrhau bod pawb yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt i ffynnu. Mi fuasai'n bleser cael cydlynu â'ch swyddfa i drefnu amser cyfleus ar gyfer eich ymweliad. Rydym yn credu y byddai eich cysylltiad â ni nid yn unig yn rhoi sylw i bwysigrwydd ein gwaith ond hefyd yn tanlinellu'r angen am barhad yn y gefnogaeth wleidyddol i sicrhau cynaliadwyedd Trafnidiaeth Gymunedol yn y dyfodol.

Diolch am ystyried ein cais. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu ac i ddangos i chi'r rôl hanfodol mae [ENW'R SEFYDLIAD] yn ei chwarae yn ein cymuned.

Yn gywir,

[ENW]

[LLOFNOD]

